Taflen Ffeithiau 3: Defnyddio eich Taliadau Uniongyrchol

Mae defnyddio eich Taliadau Uniongyrchol yn ymwneud â bodloni eich anghenion a'r canlyniadau a gytunwyd yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gall hyn gynnwys bod yn greadigol ac yn hyblyg o ran sut rydych yn cyflawni'r pethau sy'n bwysig i chi.

Ar gyfer beth allaf ddefnyddio fy Nhaliad Uniongyrchol?

Rhaid i chi ddefnyddio eich Taliad Uniongyrchol i gyflawni eich canlyniadau personol. Dyma'r pethau y mae Cyngor Sir y Fflint wedi cytuno eich bod angen cymorth i'w cyflawni. Byddant wedi eu hysgrifennu yn eich Cynllun Gofal a Chefnogaeth. A gallai gynnwys pethau megis:

- Parhau i fod yn annibynnol
- Cefnogaeth i ddysgu sgiliau newydd
- Cyflogi Cymhorthydd Personol i'ch helpu
- Talu am weithgareddau i'ch helpu i aros yn iach megis aelodaeth campfa
- Talu am offer
- Gofal seibiant neu seibiant byr
- Cefnogi helpwyr di-dâl
- Talu am bethau eraill sy'n cefnogi eich lles personol

Enghreifftiau o gostau helpwyr di-dâl yw:

- Talu am ffi aelodaeth clwb megis ffotograffiaeth er mwyn iddynt allu eich helpu i fynd yno.
- Prynu tocyn tymor i ffrind sy'n mynd a chi i gemau pêl-droed bob wythnos, yn hytrach na thalu i gymhorthydd personol wneud hynny.
- Ffyrdd eraill y dewiswch i wobrwyo rhywun am eu cymorth anffurfiol

Cefnogaeth i reoli

Cofiwch fod angen i Gyngor Sir y Fflint ddarparu cymaint o gefnogaeth ag rydych ei angen i reoli eich taliad uniongyrchol, felly siaradwch gydag un o'r Tîm Cefnogi Taliadau Uniongyrchol i drafod beth rydych ei angen.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk